

Prif Weithredwr

Amodau a Thelerau Gwasanaeth – Cyffredinol

1. Gwneir y penodiad yn ôl amodau a thelerau'r Cydbwyllgor Trafod ar gyfer Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol, yn amodol ar unrhyw newid a wneir o dro i dro ac yn unol â hynny gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn ôl ei ddisgresiwn.

2. Cyflog

Graddfa gyflog y swydd hon yw £111,191 - £127,513 y flwyddyn.

£127,513
£123,432
£119,352
£115,271
£111,191

Fel arfer bydd gweithwyr sy'n ymgeisio ac yn cael eu penodi, drwy broses recriwtio fewnol neu allanol, yn cael eu penodi ar waelod y raddfa a ddyrennir i'r swydd drwy'r broses werthuso swyddi. Dan amgylchiadau eithriadol, a phan fo rhesymau cryf a thystiolaeth i gefnogi'r penderfyniad, gellir penodi gweithiwr newydd ar hicyndd cyflog uwch, yn amodol ar uchafswm y raddfa.

3. Mesurir perfformiad yn erbyn meini prawf cytunedig bob chwe mis, sy'n cynnwys cyrraedd targedau perfformiad aelodau etholedig mewn perthynas â phrif gyfrifoldebau'r swydd.

4. Treuliau

Telir costau teithio a chynhaliadau, ynghyd â thaliadau eraill y gellir eu gwneud, ar y sail a benderfynir gan y Cyngor Bwrdeistref Sirol, sy'n cyd-fynd â'r cytundeb cenedlaethol yr ychwanegir ato neu a ddiwygir yn lleol.

5. Ffioedd Proffesiynol

Bydd y Cyngor yn cymeradwyo ad-dalu cost tanysgrifio flynyddol hyd at ddau gorff proffesiynol perthnasol.

6. Pensiwn

- a. Bydd deiliad y swydd yn dod yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn awtomatig, oni bai ei fod yn dewis gwneud ei drefniadau ei hun ar gyfer pensiwn preifat.
- b. Mae Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn gynllun Cyfartaledd Cyflog Gyrfa wedi'i Adbrisio sy'n darparu pensiwn ar adeg ymddeol yn seiliedig ar wasanaeth a gronwyd a chyfartaledd eich enillion blynyddol dros eich aelodaeth o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.
- c. Mae cyfraniadau aelodau wedi'u bandio yn unol â thaliadau cyfwerth â llawn amser (sef 11.4% ym mis Ebrill 2017 (adolygir hyn yn flynyddol)).

7. Oriau Gwaith

- a. Mae'r wythnos waith sylfaenol yn 37 awr.
- b. Fodd bynnag, ar gyfer swydd mor uchel, bydd gofyn i'r deiliad weithio faint bynnag o oriau sydd eu hangen i gwrdd ag anghenion a gofynion y gwasanaeth, ac mae cyflog y swydd yn adlewyrchu'r gofyniad hwnnw.

8. Gwyliau

Mae blwyddyn wyliau'r Cyngor yn ymestyn o 1 Ebrill tan 31 Mawrth. Yr hawl gwyliau blynyddol yw 35 diwrnod y flwyddyn, yn ogystal â gwyliau cyhoeddus wrth iddynt ddigwydd.

9. Terfynu Contract

Mae'n rhaid i'r Prif Weithredwr roi 3 mis o rybudd i'r Cyngor.

10. Swydd Dan Gyfyngiadau Gwleidyddol

Yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1989, mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi a chynnal rhestr o swyddi a ystyrir yn rhai dan gyfyngiad gwleidyddol. Mae swydd y Prif Weithredwr yn swydd dan gyfyngiadau gwleidyddol.

11. Cyngor i Grwpiau Gwleidyddol

Ni fydd gofyn i'r Prif Weithredwr gynghori grwpiau gwleidyddol y Cyngor Bwrdeistref Sirol, o ran gwaith y grŵp neu waith y Cyngor, ac ni fydd gofyn iddo ychwaith fynychu unrhyw gyfarfod o grŵp gwleidyddol.

Ni fydd hyn yn rhagfarnu unrhyw drefniant i'r gwrthwyneb a ellir ei wneud mewn cytundeb â'r Cyngor ac sy'n cynnwys trefniadau diogelu digonol i gadw amhleidioldeb ei fusnes mewn perthynas â busnes y Cyngor Bwrdeistref Sirol.

Arall – Ffioedd Etholiadau

Y Prif Weithredwr yw'r Swyddog Canlyniadau / Swyddog Cofrestru Etholiadol dynodedig ac felly bydd yn derbyn ffioedd a delir yn unol â'r atodlen sydd mewn grym ar y pryd. Sylwch, mae ffioedd etholiadau yn cynnwys hawl i bensiwn sydd ar wahân i'r brif gyflogaeth.

Mae gan y Cyngor hefyd bolisi adleoli, mae rhagor o wybodaeth ar gael ar gais drwy gysylltu â'r Rheolwr Adnoddau Dynol a Datblygiad Sefydliadol ar 01978 297510.